# Adroddiad Data Diogelwch Cymunedol Tachwedd 2025

## Ymddygiad Gwrthgymdeithasol

**63** o atgyfeiriadau ymddygiad gwrthgymdeithasol ym mis Tachwedd 2025
**93** o atgyfeiriadau ymddygiad gwrthgymdeithasol ym mis Tachwedd 2024

Gostyngiad o 32%

**112** o ddigwyddiadau Tach 2025

119 Hyd 2025

Gostyngiad o 6% Hyd 2025

**133** o ddigwyddiadau Tach 2024

**112** o ddigwyddiadau ymddygiad gwrthgymdeithasol yn mis Tachwedd. Mae nifer y digwyddiadau wedi gostwng **16%** ers mis Tachwedd 2024



Yn ddiweddar, mae Antony Parker wedi dechrau ei swydd yn y tîm fel Swyddog Diogelwch Cymunedol. Bydd Antony yn ymgysylltu'n weithredol â'r gymuned a busnesau, yn patrolio ardaloedd lle mae ymddygiad gwrthgymdeithasol yn broblem ac yn sicrhau bod yr holl bryderon yn cael eu clywed a'u datrys. Os byddwch yn gweld Antony wrth ei waith, mae croeso i chi siarad ag ef am unrhyw bryderon neu faterion yn y gymuned.




## Teledu Cylch Cyfyng

Yn ystod mis Tachwedd cafodd **45** o ddigwyddiadau ym Mro Morgannwg eu cofnodi ar deledu cylch cyfyng.



Mae'r camerâu teledu cylch cyfyng yn cynorthwyo'r Heddlu a'r Awdurdod Lleol gyda'u hymchwiliadau. Y digwyddiadau mwyaf cyffredin oedd:

**Ymddygiad Ymosodol / Treisgar**
**Pryder am Les**
**Digwyddiad**
**Cerbyd Person**
**ar goll Dwyn**




*Ffurfiodd Cyngor Bro Morgannwg bartneriaeth â Chyngor Caerdydd a Heddlu De Cymru i wella effeithiolrwydd monitro teledu cylch cyfyng ar draws y rhanbarth. Mae'r camerâu teledu cylch cyfyng yn cael eu monitro 24/7 gan weithredwyr teledu cylch cyfyng hyfforddedig yng Nghyngor Caerdydd.*

## Cydlyniant Cymunedol

Mae Cydlyniant Cymunedol yn golygu gweithio gydag asiantaethau statudol, y trydydd sector a chymunedau i helpu i wneud y Fro yn lle mwy diogel i fyw ac i leihau'r ofn o droseddau. Fel rhan o'r rôl, mae tensiynau o fewn y gymuned yn cael eu monitro



Gostyngiad o 67% o fis Hyd

**Tensiynau Cymunedol**




Trafodwyd yr atgyfeiriadau gyda'r heddlu lleol a phartneriaid yn y grŵp datrys problemau misol.

## Ymgysylltu â’r Gymuned



Yn ddiweddar, cynhaliodd Heddlu Caerdydd a'r Fro eu seremoni wobrwyo flynyddol, lle derbyniodd ein Cydlynydd Cydlyniant Diogelwch Cymunedol, Rachel Slade, ynghyd â Swyddogion Troseddau Casineb Heddlu De Cymru, wobr haeddiannol.
Mae'r gydnabyddiaeth hon yn tynnu sylw at eu gwaith tîm a'u hymrwymiad rhagorol i ymgysylltu â chymunedau ar draws Bro Morgannwg a hyrwyddo cyfathrebu effeithiol, cynhwysol.

Ar 25 Tachwedd, mynychodd y Tîm Diogelwch Cymunedol agoriad arddangosfa Gwasanaethau Cam-drin Domestig y Fro, ***Newid Persbectif – Gall Bywyd fod yn Wahanol*** yn Oriel Gelf Ganolog, Y Barri.

Mae'r arddangosfa yn cyflwyno casgliad pwerus o ffotograffau sy'n tynnu sylw at gryfder a gwytnwch goroeswyr cam-drin domestig. Mae'n ein hatgoffa am ddewrder, gobaith, a'r potensial ar gyfer newid cadarnhaol.

Bydd yr arddangosfa ar agor i'r cyhoedd tan 10 Ionawr 2026, ac yn gyfle i ymgysylltu â'r straeon ysbrydoledig hyn.




## Cynhadledd Amlasiantaeth Asesu Risg

Mae'r Gynhadledd Amlasiantaeth Asesu Risg wythnosol yn cynnwys yr holl bartneriaid a rhanddeiliaid allweddol sy'n gweithio gyda'i gilydd i greu cynllun gweithredu ar gyfer dioddefwyr Trais Domestig a'u teuluoedd

Roedd **100%** o'r achosion a drafodwyd yn ddioddefwyr benywaidd

Roedd **83%** o’r achosion a drafodwyd yn ymwneud â phlant yn bresennol yn ystod y digwyddiad

Roedd **50%** o’r dioddefwyr yn cael cymorth gan wasanaethau cymorth.




Achosion a drafodwyd yng Nghynhadledd Amlasiantaeth Asesu Risg 2025 o'i gymharu â Hydref 2025

Clare’s Law
The Domestic Violence Disclosure Scheme

23 Ceisiadau Tach 2025

24 Tach 2024

### Sut i gyflwyno cais Cyfraith Clare

- Trwy ffonio 101 a gofyn i wneud cais Cynllun Datgelu Trais Domestig
- Trwy fynd i'ch gorsaf heddlu leol a gofyn i wneud cais CDTD

## Gwella Diogelwch

Gwella Diogelwch yw pan fyddwn yn gosod diogelwch ychwanegol fel teledu cylch cyfyng, larymau lladron, cloeon drysau neu ffenestri newydd os yw'n galluogi dioddefwr cam-drin domestig i aros yn eu cartref yn ddiogel.

**8** o atgyfeiriadau Gwella Diogelwch ym mis Tachwedd 2025
**6** o atgyfeiriadau Gwella Diogelwch ym mis Tachwedd 2024

cynnydd o 33%

## Ymgysylltu â’r Cyfryngau Cymdeithasol

Dilynwch ni ar y cyfryngau cymdeithasol i gael y wybodaeth ddiweddaraf am Ddiogelwch Cymunedol a digwyddiadau ymgysylltu sydd ar y gweill

**Facebook**
VoG Community Safety
**103** o Bostiadau Tach 25
**60** o Bostiadau Tach 24

**Instagram**
@VoGCommunitySafety
**102** o Bostiadau Tach 25
**38** o Bostiadau Tach 24

**554** o achosion o ryngweithio ar draws y ddau lwyfan

# Golwg Agosach

Mae 25 Tachwedd yn nodi Diwrnod y Rhuban Gwyn, sy'n fudiad byd-eang i roi terfyn ar drais yn erbyn menywod a merched. Mae gwisgo rhuban gwyn yn cynrychioli addewid i beidio byth â chyflawni, esgusodi neu aros yn dawel am gamdriniaeth. Gyda'n gilydd, rydym yn herio agweddau niweidiol, yn hyrwyddo parch, ac yn gweithio i greu cymunedau mwy diogel i bawb.

**Diwrnod y Rhuban Gwyn 25 Tachwedd 2025: Rydyn ni'n Codi Llais Rydyn ni'n Codi Llais dros Newid**

Mae esgusodi rhywiaeth yn rhoi menywod a merched mewn perygl. Efallai y bydd jôcs rhywiaethol, chwibanu, syllu, neu sylwadau yn ymddangos yn ddiniwed, ond maen nhw'n ddifrifol ac yn gallu arwain at drais a cham-drin.

WE SPEAK UP







Vale DOMESTIC ABUSE SERVICES GWASANAETHAU CAM-DRIN DOMESTIG

Mynychodd Rheolwr VAWDASV Wylnos Golau Cannwyll Bro Morgannwg, a drefnwyd gan Wasanaethau Cam-drin Domestig y Fro.

Daeth y digwyddiad pwerus hwn â'r gymuned leol ynghyd i sefyll mewn undod ac eirioli dros roi diwedd ar bob math o drais yn erbyn menywod a merched.

Rydym yn parhau i fod yn ymrwymedig i weithio gyda phartneriaid a'r gymuned i greu Bro ddiogelach i bawb.




Ym mis Mehefin, cynhaliodd Partneriaeth Bro Ddiogelach ddigwyddiad Ymgyrch y Rhuban Gwyn yn Ynys y Barri, gan godi ymwybyddiaeth am bwysigrwydd cefnogaeth dynion wrth roi terfyn ar drais yn erbyn menywod a merched

Mae a wnelo hyn â chefnogi hawliau person arall. Mae'n ymwneud â chymryd rôl weithredol yn dysgu am eu profiadau, tynnu sylw at eu profiadau a'u lleisiau, a chefnogi eu hawliau.

WHITE RIBBON .ORG.UK
END MEN'S VIOLENCE AGAINST WOMEN



#WhiteRibbonCampaign